Cinio Pentymor y Gymdeithas

Oherwydd prysurdeb cyfnod Gwyl Ddewi eleni, penderfynodd Pwyllgor y Gymdeithas gynnal y Cinio Pen Tymor yn hwyrach yn y mis i gloi gweithgareddau'r flwyddyn. Felly, ar Nos Iau, 31 Mawrth 2011, daeth tua 60 o aelodau Minny Street ynghyd yn llawen, llon a swnllyd yng Nghlwb Golff Llanisien i ddathlu tymor hynod lwyddiannus. Dim ond ddwywaith yn ystod y noson y distawodd y clebran a chwerthin. Gostegodd rywfaint wrth i unigolion y gwahanol fordydd ddechrau sipian eu cawl, ymosod ar eu heog mwg a'u melon, a chanolbwyntio ar yr ail gwrs blasus iawn. Erbyn y salad ffrwythau, llanast Eton, neu bwdin bara brith, daeth ton fach ddedwydd eto o sisial gwerthfawrogol, bodlon. Ond wedi'r coffi, a'r Cadeirydd Rhiannon Evans yn galw am ddistawrwydd, a phob pen a chadair yn troi at y gwyr gwadd fel Mwslim at Fecca, dyna pryd y disgynnodd tawelwch go-iawn.

Cawsom ein swyno am hanner awr hyfryd gan ddau o golofnau'r achos ym Minny Street, sef Havard a Rhiannon Gregory. Eglurodd Rhiannon wrth agor ei bod hi wedi cael plentyndod symudol, rhwng Cwm Tawe a gogledd Cymru, tra bod gan Havard ei filltir sgwâr yn ardal y Cymer a'r Porth, ac yna yng Ngwaelod-y-garth. Wedyn cawsom gan Havard gyflwyniad i rai o'r bobl hynod a gyfarfu yno yn ystod ei febyd. Cymydog agos iddo yn y Cymer oedd yr awdur a'r darlledwr Gwyn Thomas. Eraill oedd Tudor Davies, a ddaeth yn ganwr opera gyda Sadler's Wells, William Evans Corona Pop, a George Rees, awdur yr emyn: "O! Fab y dyn, Eneiniog Duw, fy Mrawd /A'm ceidwad cry'".

O'r un ardal hanai'r clasurydd o fri J. Gwyn Griffiths, tad Robat a Heini, a'r organydd Geraint Jones a arbedodd organau baróc nodedig dwyrain yr Almaen. Ac yno hefyd y ganwyd William Thomas, a ddaeth yn ben swyddog y llywodraeth yng Nghymru, ac a fu yn y 40au yn ddiacon uchel iawn ei barch ym Minny Street. A phoblogaeth ardal Pontypridd a'r Rhondda yn y 1920au yn 175,000, o gymharu â'r 60,000 presennol, efallai bod hinsawdd byrlymus gwleidyddol, crefyddol a chymdeithasol y boblogaeth fawr yn y cyfnod wedi cyfrannu at fagu glewion. Cofiwn mai ym mlwyddyn geni Havard, 1925, y cyhoeddwyd *Mein Kampf*, y ganwyd Plaid Cymru, ac y daeth Mussolini i rym.

Soniodd Havard hefyd am rai o'r profiadau bythgofiadwy a gafodd, a'r cymeriadau hynod a gyfarfu yn ystod ei yrfa. Yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, cysgai yn hen ystafell Lawrence o Arabia, ac fe adroddodd yr hanes am Richard Burton ac eraill yn ymosod ar ddrws yn y Coleg ryw noson, a chael eu dirywio o £10 yr un am y difrod. Gyda gwên ddireidus, datganodd mai ei lais yntau oedd y *voice-over* ar hysbysebion cyntaf baco *Players Please*. Ysgydwodd law'r mathemategydd a'r athronydd Bertrand Russell, a roddodd i Havard groeso sawl gwaith ar ei aelwyd nepell o Benrhyndeudraeth. Teithiodd yn yr UD gydag Aeronwy Thomas, gan ddarllen 'Dan y Wenallt' yn y Gymraeg a'r Saesneg. A gyrrodd ein cynulleidfa i 'sterics wrth iddo adrodd hanes y gwahoddiad a gafodd i fod yn 'delynores' yng ngweithgareddau'r Orsedd yn Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Glyn Ebwy 2008, ac wrth ddarllen ei lythyr yn ateb y cais.

Braslun yn unig a geir yma i'n hatgoffa am sgwrs wedi-cinio ddifyr, ffres a gwahanol, ac un a ddadlennodd dipyn am gymeriad unigryw ac annwyl Havard ei hunan.Ychwanegodd ei *side-kick* Rhiannon liw a hiwmor i'r achlysur gyda'i darlleniadau cynnil. Mawr ddiolch i'r ddau ohonoch.

Mawr hefyd ein dyled i Rhiannon Evans am fod yn gadeirydd gwych ar hyd y flwyddyn ac ar y noson, i Anne Rees am gysylltu a threfnu gyda Chlwb Golff Llanisien, ac am y trefniadau blodau hyfryd, i Eleri Bevan am fod yn Graig yr Oesoedd a dwyn y maen i'r wal ar bob achlysur, ac i holl aelodau'r Pwyllgor am eu gwaith diwyd ar hyd y flwyddyn. Dymunwn bob hwyl i Glyn a'r Pwyllgor newydd.

Ann Saer